Cofnodion Cyfarfod 9fed o Ebrill 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown	Pat Jones
George Smith	Nerys John
Lena Ashley	Iestyn Harris
Siân Gwenllïan	Daniel Williams
Louise Hughes	o 19:45

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Ebrill y Cyngor. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr ynglŷn â'r cyfarfod a gafwyd rhwng Grid Cenedlaethol ac aelodau'r Cyngor ynghyd a Dr Horrocks oedd yn cadeirio'r achlysur.

Ymddiheuriadau Sara Riley, Bethan Jones, Hywel V Jones

2.0 DATGAN DIDDORDEB

2.1 Dim

3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 12fed o Fawrth 2013.

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Cerrig yr Afon** – Dim ateb wedi ei dderbyn i ddyddiad.

Y Clerc i anfon gair ar Cerrig yr Afon yn gofyn am benderfyniad.

5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor rheoli adborth o'r cyfarfod diweddar. Dywedodd bod man weithiau fel y larymau tan angen sylw. Dywedodd bod y Pensaer wedi comisiynu adroddiad annibynnol ar ôl derbyn adroddiad blaenorol Snowdonia Fire Protection Ltd ynglyn a gwaith angenrheidiol.

5.2 Roedd adborth da iawn wedi ei dderbyn wedi ymweliad Bara Caws a'r Neuadd; er hynny roedd awgrym wedi ei wneud dylai llenni cael eu codi yn y neuadd.

5.3 Trafodwyd contract waith yr ofalwraig; argymhellir i banel cyflogaeth y cyngor i'w chymeradwyo.

5.4 Darllenwyd allan dyletswyddau'r ofalwraig a dylid adolygu'r cyflog i gydnabod y rhain yn yr is-bwyllgor cyflogaeth ym mis Mai.

5.5 Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y mater o gyflwyno llenni yn y neuadd.

5.6 Ystyriwyd y cais. Cyflwynodd y Swyddog ariannol amcan bris am "standard Blinds" i 6 ffenest, £684 yn cynnwys TAW neu rhai "blackouts" am £828 yn cynnwys TAW. Gofynnwyd i gael samplau cyn dewis

5.7 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pharcio ar gyfer gweithgareddau'r neuadd. Penderfynwyd bod pwyllgor y neuadd yn cyd-weithio a phwyllgor neuadd yr Eglwys ar gyfer gwneud cais am ddefnyddio maes parcio Neuadd yr Eglwys.

5.8 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chreu cynllun Cyfeillion y neuadd er mwyn alluogi pwyllgor rheoli'r neuadd i roi cymorth o fewn y neuadd pan fo gweithgareddau ymlaen.

5.9 Dywedodd Y Swyddog Ariannol bod newidiadau i'r neuadd wedi eu cwblhau a bod y cyfrif hefyd wedi ei gau. Mae costau blynyddol y neuadd wedi eu cyflwyno i Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli.

6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Mawrth ac adroddiad blynyddol 2012 - 2013.

6.2 Cafwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth y Regata; penderfynwyd anfon ymlaen iddynt hwy'r Swm o £150.

6.3 Mae cyfrifon y Neuadd wedi eu cyflwyno i Gadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd.

6.4 Mae gwybodaeth wedi dod i law oddi wrth yr Archwilwyr Allanol bod yr Adroddiad Ariannol i'w gyflwyno erbyn yr 29 o Fehefin 2013; hefyd roedd y Cyngor wedi ei ddewis fel un o'r 5% sydd i dderbyn archwiliad ychwanegol.

6.5 Fe longyfarchwyd y Swyddog Ariannol gan y Cynghorydd Siân Gwenllïan er ei waith .

6.6 Dywedodd y Swyddog Ariannol body n arfer gan y Cyngor i ystyried cyflogau yn is flynyddol, gofynnwyd i'r eitem yma gael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer mis nesaf.

7.0 GOHEBIAETH

7.1 Darllenodd y Cadeirydd yr ohebiaeth oedd wedi ei dderbyn.

7.2 Cyngor Gwynedd – Materion Traffig yn datgan y diweddara ar y materion.

7.3 Llythyr Mark Roberts Amcen - yn cadarnhau ei ddymuniad i Cyngor Cymuned y Felinheli symud ymlaen a llwybr Rowen.

7.4 Llythyr John Nightingale – ynglyn a llwybr Rowen ac yn gwneud cais am gyfarfod.

7.5 Llythyr Cyngor Cymuned Llanystumdwy - ynglŷn â cheisio cefnogaeth y Cyngor i wrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i ymestyn tymor aros meysydd carafannau i 12 mis.

7.6 Cyngor Gwynedd – Materion Priffyrdd.

7.7 Cyngor Gwynedd – Mater Llwybr Heilyn.

8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Dim.

9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 C13/0343/20/LL – Cais ar gyfer estyniad deulawr to pits yn lle'r estyniad unllawr ar gefn yr eiddo – 44 Y Wern, Y Felinheli Gwynedd LL56 4TX – **Dim gwrthwynebiad.**

10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

10.1 Bellach mae'r garreg fedd oedd yn rhydd wedi ei thrwsio.

11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

11.1 Mae Cyfarfod gyda Menter Fachwen ynglŷn â safle Moria wedi ei gynnal ac maent yn barod i gynnal y safle.

11.2 Mae'r ddau gar oedd wedi eu gadael yn y maes parcio bellach wedi cael eu symud.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

12.1 Dywedwyd bod arwydd Llwybr Cyhoeddus ger Gelli gyffwrdd wedi diflannu.

Y Clerc i ddod ar fater i sylw Cyngor Gwynedd.

12.2 Yn dilyn gohebiaeth oddi wrth berchnogion Tir llwybr Rowen, penderfynwyd bod y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, Mr John Nightingale ac aelodau is-bwyllgor llwybrau'r Cyngor Cymuned.

12.3 Roedd yn Cyngor yn falch iawn o adroddiad Cyngor Gwynedd yn datgan bod gwaith thrwsio Llwybr Heilyn ar fin dechrau.

12.4 Dywedodd y Cynghorydd George Smith bod caniatâd ynglŷn â'r llwybr arfordir bron wedi ei dderbyn, hefyd y llwybr beicio.

13.0 CYNGHORODD SIR

13.1 Fforwm Busnes Y Felinheli - cyfarfod ar y 16 o Ebrill 2013 yn yr Hen Lechen i drafod marchnata ar y cyd. Gofynnwyd a byddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried rhoi cyfraniad tuag at gostau cyfieithu.

13.2 Ffordd Osgoi - mater yn symud ymlaen, bellach Edwina Hart sydd a'r portffolio. Bydd cyfarfod nesaf Nos Iau gyda Hywel Williams ag Alun Ffred.

13.3 Wedi cyfarfod a Grid Cenedlaethol Dr Horrocks wedi rhoi sylwadau ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor er mwyn ei anfon ymlaen atynt.

Penderfynwyd rhoi hyd nes dydd Gwener i aelodau ddarllen sylwadau Mr Horrocks, os na dderbynnir y Clerc sylwadau pellach yna y caiff ei anfon ymlaen at y Grid Cenedlaethol.

13.4 Oherwydd bod Ffordd Caernarfon wedi ei chyfyngu i un ffordd dros dro mae safle bws wedi ei gau, mae cais wedi ei wneud ar gyfer cael safle bws arall dros dro.

13.5 Bydd Cadeirydd y Cyngor yn derbyn siec at Gronfa Llifogydd Cyngor Gwynedd yn y Felin Sgwrsio Dydd Gwener; bydd hyn yn dilyn mynd o gwmpas y pentref gyda phlant yr ysgol gynradd fel rhan o'u gwaith yn ymwneud a Trefi Taclus.

13.6 Mae deiseb yn mynd o amgylch ynglŷn â lleoliad cyffordd Ger y Nant, gobeithir cael ymweliad safle.

14.0 UNRHYW FATER ARALL

Dim

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....